

**GWEINIDOGION Y DU YN GWEITHREDU MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**102 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gofal Iechyd Trawsffiniol a
Diwygiadau Amrywiol etc.) (Ymadael â'r UE) 2019**
Wedi'u gosod yn Senedd y DU: 11 Chwefror 2019

Sifftio

Yn destun gwaith sifftio yn Senedd y DU?	Nac ydynt
Y weithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	12 Chwefror
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Dd/B
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur 16
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol (SICM) o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd eu bod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Papur 17

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Dd/B
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cydbwyllgor ar Offerynnau Statudol	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	Nid yw'n hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Nid yw'n hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Bydd y Rheoliadau yn dileu'r hawliau gofal iechyd trawsffiniol sy'n bodoli ar hyn bryd o dan ddeddfwriaeth ddomestig. Ar yr un pryd, byddant yn diogelu cleifion a effeithir gan y cyfnod pontio ac yn caniatáu parhad y trefniadau gofal iechyd trawsffiniol sy'n bodoli gyda'r gwledydd sydd wedi ymrwmo i gytundeb dwyochrog gyda Llywodraeth y DU yn ystod y cyfnod pontio (hyd at 31 Rhagfyr 2020). Maent yn galluogi pobl sy'n byw yng Nghymru a Lloegr i gael mynediad at ofal iechyd trawsffiniol mewn gwledydd "rhestredig". Bydd yr Ysgrifennydd Gwladol yn cadw rhestr o wledydd sy'n ymrwmo i gytundeb â'r DU at ddibenion parhau â threfniadau gofal iechyd trawsffiniol. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn gwahardd mynediad at ofal iechyd mewn gwledydd lle nad oes dwyochredd.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru, dyddiedig 14 Chwefror 2019, ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r datganiad yn cyfeirio at y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol a osodwyd mewn perthynas â diwygio Deddf GIG (Cymru) 2006, ond nid yw'n nodi a yw

Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A.10.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith, ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig. Mae'n werth nodi, fodd bynnag, fod y Nodyn Esboniadol sydd ynghlwm wrth y Rheoliadau yn hynod ddi-fudd o ran esbonio eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a'r cam o Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. Fodd bynnag, mae'r Rheoliadau yn codi materion sy'n ymwneud â "phwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu [sy'n codi] materion polisi cyhoeddus sy'n debygol o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad", a hynny mewn ffordd a fyddai'n arwain at adroddiad 'rhinweddau' pe bai hwn yn Offeryn Statudol i'w wneud gan Weinidogion Cymru.

Felly, mae'n bosibl y bydd yr Aelodau am drafod a ddylid cyflwyno cynnig cydsyniad, yn unol â Rheol Sefydlog 30A.10, mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn, oni bai bod Llywodraeth Cymru yn cadarnhau ei bod yn bwriadu gwneud hynny.